Grŵp Trawsbleidiol ar Ynni Cynaliadwy
Cross Party Group on Sustainable Energy

Mewn partneriaeth â | In partnership with
FW | FRESHWATER ARUP

# Cofnodion

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ynni Cynaliadwy

## Cyflwyniadau gan

## Paul Allen, Canolfan y Dechnoleg Amgen

## Richard Murphy, Grŵp y Fargen Newydd Werdd

***Dydd Gwener 2 Hydref 2020, 11.00***
***Cyfarfod rhithwir drwy Microsoft Teams***

# Yn bresennol

### Aelodau o'r Senedd

Janet Finch-Saunders AS

Llyr Gruffydd AS

### Aelodau o'r diwydiant

Alex Simms, ar ran Jenny Rathbone AS

Angharad Davies

Carolyn Pugsley

Chris Jackson

Eleri Davies

Ian MacKinlay

Kate Oates

Laura Hulson

Lia Murphy

Mike, ar ran Rhyn Ap Iorwerth AS

Paul Allen

Rhys Wyn Jones

Richard Murphy

Ryland Doyle, ar ran Mike Hedges AS

Simon Morgan

Will Ryan

Yasmin Akbari

## Croeso: Rhys Wyn Jones, RenewableUK Cymru

- Diolch yn fawr i bawb am fod yn bresennol ar gyfer y cyfarfod rhithwir hwn. Edrychwn ymlaen at glywed cyflwyniadau ynghylch y fargen newydd werdd. Ymddiheuriadau am yr oedi ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r pandemig wedi ein gorfodi i ail-flaenoriaethu gwaith, ond rydym yn gobeithio parhau ar sail chwarterol. Mae'r cyfarfod yn cael ei recordio, a bydd ar gael i'w wylio eto ar ôl i'r sesiwn orffen.

### Cyfarfod cyffredinol blynyddol

- Cynigiwyd bod Llyr Gruffydd yn cadeirio am dymor arall.
- Cynigiwyd bod Freshwater yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth am dymor arall.

## Croeso: Llyr Gruffydd

Bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y fargen newydd werdd yng nghyd-destun y pandemig a sut y mae'r sefyllfa wedi newid ers y cyfarfod ar yr un pwnc ym mis Chwefror. Rydym yn croesawu yn ôl y ddau siaradwr, Paul Allen a Richard Murphy.

## Cyflwyniad: Paul Allen, Canolfan y Dechnoleg Amgen

Rhoddodd Paul Allen gyflwyniad ar y datrysiadau neilltuol sydd eu hangen mewn ymateb i broblemau neilltuol, yn ogystal â'r camau posibl tuag at Brydain ddi-garbon.

## Cyflwyniad: Richard Murphy, Grŵp y Fargen Newydd Werdd

Trafododd Richard Murphy sut y mae'r fframwaith gwleidyddol ac economaidd wedi newid, ei farn ar ddirwasgiad sydd ar ddod, diweithdra eang a chwyddiant, yn ogystal â'r cyfle i Gymru lunio'r economi sydd ei hangen arni.

## Cwestiynau ac atebion

**Cwestiwn:** *Eleri Davies, RWE Renewables UK* - Mae datganiadau newid yn yr hinsawdd ar lefelau llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol yn un peth, ond a ydych chi'n credu bod maint a chyflymdra'r her yn amlwg i'r swyddogion perthnasol? Un o'r prif heriau wrth gyrraedd targedau di-garbon yng Nghymru yw capasiti'r grid - a ydych chi'n credu y bydd y swyddogion perthnasol yn symud y tu hwnt i 'fusnes fel arfer' i sicrhau bod y rhwydweithiau grid newydd/rhwydweithiau wedi'u huwchraddio yn eu lle ar raddfa ddigonol ac yn ddigon cyflym?

**Ymateb (PA):** Mae yna gonsensws eang mewn cymdeithas fod yn rhaid i ni weithredu. Caiff prisiau ynni adnewyddadwy eu tracio ac maent yn gostwng yn gyflym. Mae'n rhaid i ni feddwl ar draws ffiniau a disgyblaethau; ni allwn ond feddwl am weledigaeth ar gyfer trydan yn unig – mae'n rhaid i ni ystyried sut y mae'n cysylltu â diwylliant ac amaethyddiaeth.

Rydym wedi cyrraedd y pwynt lle y mae'n rhaid i ni gael y trafodaethau manwl nesaf ar hynt y broses ar draws sectorau, cymdeithas sifil a llywodraethau.

**Cwestiwn:** *Rhys Wyn Jones, RenewableUK Cymru* – Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru lawer o ffrydiau gwaith ar y gweill sy'n trafod 'adferiad gwyrdd'. O ran y trefniadau, sut ydych chi'n sicrhau bod y syniadau perthnasol yn arwain at gamau gweithredu go iawn?

**Ymateb (PA):** Rydym yn cefnogi cynghorau, cynghorau dosbarth ac unigolion gweithredol i ddarparu hyfforddiant 'llythrennedd carbon'. Rydym wedi bod yn cydgysylltu â chynghorau oherwydd mae'n rhain i ni rannu prosesau ac esiamplau o fywyd go iawn sydd yn gweithio.

**Ymateb (RM):** Rydym yn gweld newid go iawn ac, o bosibl, yn gweld strategaeth ddiwydiannol yn ailymddangos, ac nid ydym wedi gweld hyn ers cryn amser. Heb ymyrraeth gan y llywodraeth, nid ydym yn mynd i weld cynnydd naturiol drwy'r argyfwng nac ychwaith yr economi gynaliadwy rydym ni am ei gweld. Rwy'n credu'n gryf mewn economi gymysg, ond mae'n rhaid i'r wladwriaeth ysgogi newid. Mae yna risg na fydd camau gweithredu wedi'u cydgysylltu. Mae'n rhaid i bob llywodraeth fod â chynllun gweithredu sy'n cydnabod awdurdodau lleol, oherwydd heb ymwybyddiaeth leol, ni fydd gennych gefnogaeth ar lawr gwlad. Mae'n ddyletswydd ar y Senedd i roi fframwaith cydgysylltu yn ei le sy'n nodi'r hyn y mae Cymru yn ceisio ei wneud, sut rydym yn credu y bydd hyn yn digwydd, beth yw'r nod a'r amserlen, sut y gallwn ddyrannu adnoddau i gyrraedd y nod hwnnw a sut y gallwn godi arian ar gyfer y gwaith hwnnw. Mae'n rhaid i bob cynllun da fod yn gyraeddadwy, gan bennu targedau sydd yn galw am rywfaint o ymdrech. Yr her yn y tymor hir yw cydgysylltu. Mae'r llywodraeth wedi awgrymu fod ganddi rôl bosibl o ran ymyrryd yn yr economi, sy'n dangos newid o ran pwyslais.

**Ymateb (PA):** Cefais fy synnu braidd wrth glywed y Tywysog Charles yn dweud bod arnom angen 'Cynllun Marshall' i fynd i'r afael â'r mater hwn. Y peth allweddol yw sut rydym yn cyrraedd y nod. Mae tri argyfwng yn ein hwynebu: bioamrywiaeth, hinsawdd a'r pandemig. Pe tawn i yn Brif Weinidog, buaswn yn trefnu i bawb sydd ar ffyrlo gael wythnos o hyfforddiant llythrennedd carbon ac wythnos arall o hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'u harbenigedd - er enghraifft, manwerthu, gweithgynhyrchu ac ati. Yn y modd hwnnw, pan fyddai'r cynllun ffyrlo yn dod i ben, byddai llawer o bobl yn dychwelyd i'r economi wedi'u hyfforddi.

**Cwestiwn:** *Ian MacKinlay* – Richard, mae'n ymddangos nad ydych yn poeni am chwyddiant uchel yn y dyfodol. Beth yw eich barn chi am y syniad bod ein llywodraeth ni, yn ogystal â llywodraethau mewn mannau eraill, yn mynd i lywio'r amgylchiadau a fydd yn arwain at chwyddiant uchel, yn fwriadol a thros gyfnod cymharol fyr o amser, i leihau costau gwirioneddol y mesurau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng COVID-19?

**Ymateb (RM):** Nid wyf yn credu mewn defnyddio chwyddiant fel ffordd o ad-dalu dyledion. Gallai chwyddiant fod yn un neu ddau y cant yn uwch heb achosi unrhyw broblemau i'r economi. Fodd bynnag, yn syml, nid yw dyled gyhoeddus yn gonsyrn ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i ni weithio allan sut y gallwn ddefnyddio grym y wladwriaeth i wario arian – rydym yn gwybod bod y grym hwn yn bodoli. Hyd yma, mae'r wladwriaeth wedi creu llawer mwy o arian nag sydd ei angen i dalu am yr argyfwng, a dylwn ddefnyddio'r grym hwnnw, sy'n parhau'n anchwyddiannol tra bod gennym ddiweithdra, i greu'r cyfle ar gyfer trawsnewid. Nid oes gan y wladwriaeth unrhyw rym i ymyrryd i reoli chwyddiant yn sgil Brexit, oherwydd y

bydd hynny'n broblem wirioneddol os oes yna broblem ar y ffin. Nid wyf yn dweud y bydd Brexit yn argyfwng hirdymor ac nid wyf yn cymryd safbwynt ar y mater hwnnw. Y cyfan rwy'n ei ddweud yw ei bod yn debygol y bydd Brexit yn achosi problemau ym mis Ionawr, ac y bydd yn cael effaith untro o ran creu amgylchedd chwyddiannol, ond nid wyf yn credu y bydd hynny'n parhau yn yr hirdymor. Yn y tymor hwy, nid wyf yn credu ein bod yn wynebu risg o amgylchedd chwyddiannol gwirioneddol, ar wahân i'r effeithiau allanol fel Brexit, ond ni ddylai chwyddiant beri pryder.

**Ymateb (PA):** Byddai'n dda cael gwell ymwybyddiaeth yn ein cymdeithas o'r hyn ddigwyddodd yn yr Unol Daleithiau a gwledydd eraill yn ystod argyfwng economaidd yr 1920au a'r 1930au, a'r hyn a wnaed o ran y fargen newydd a'r Cynllun Marshall. Yn ystod cyfnodau o gyni ariannol, caiff gwledydd eu gweld fel teuluoedd sy'n gwario mwy o arian nag y maent yn ei ennill, ond mae gwledydd yn gallu creu arian a swyddi go iawn. Mae yna enghreifftiau lle rydym wedi arwain ar drawsnewid anferth, felly mae hynny'n bosibl.

**Ymateb (RM):** Mae *The Deficit Myth*, sef llyfr gwych gan Stephanie Kelton, yn ein helpu i ddeall y cyfle sydd gennym i ddefnyddio arian i ysgogi newid heb ofni chwyddiant a chodiadau mewn trethi.

**Cwestiwn:** *Rhys Wyn Jones, RenewableUK Cymru* – Gan fynd yn ôl i gyd-destun Cymru, o gofio bod etholiadau'r Senedd ym mis Mai, bydd yr Aelodau wrthi'n meddwl am gynnwys eu maniffestos a'u blaenoriaethau o ran gwariant. Mae'n rhaid i ni flaenoriaethu pobl a swyddi gwyrdd, ond pa dri pheth y byddech yn cynghori'r bobl sy'n llunio'r maniffestos i wario adnoddau prin arnynt i sicrhau adferiad gwyrdd sydd yn deg i bawb?

**Ymateb (PA):** Mae'n rhaid i ni ailfeddwl amgylcheddau adeiledig, systemau trafnidiaeth - sy'n cwmpasu popeth o lwybrau beicio mewn dinasoedd i feddwl eto am drafnidiaeth gyhoeddus - ac ailystyried ynni. Er enghraifft, pan dynnodd Hitachi allan o brosiect Wylfa Newydd, roedd arnom angen sefydlu labordy arloesi yn gyflym i drafod sut y gallwn droi Wylfa yn ganolfan ymchwil ynni gwyrdd sy'n arwain yn y maes ledled Ewrop. Mae prisiau ynni adnewyddadwy wedi gostwng cymaint, felly mae arnom angen opsiynau wrthgefn hyblyg sy'n bosibl eu haddasu. Gallwn fanteisio ar y garfan o bobl sydd yn ardal Wylfa i greu rhagor o swyddi, ond mewn ffordd sy'n wirioneddol wyrdd. Hefyd, mae'n rhaid i ni edrych ar hanes amaethyddol Cymru, a oedd arfer bod llawer yn fwy amrywiol, gan ystyried sut y gallwn symud tuag at ffermio mwy amrywiol. Drwy gysylltu'r camau hyn ag ynni a dal a storio carbon, gallwn ddod o hyd i ffrydiau incwm newydd yn y gymuned ffermio.

**Ymateb (RM):** Mae trafnidiaeth hefyd yn drawsnewidiol, ac, i lawer o bobl, mae'n gallu bod yn heriol. Mae'n rhaid cael gweledigaeth o ran y ffordd y gall Cymru ddod yn gymuned fwy effeithlon o ran trafnidiaeth sy'n llai dibynnol ar danwydd carbon. Nid fydd hyn yn rhwydd, ac ni fydd cerbydau trydanol yn datrys pob problem, oherwydd mae yna broblemau sy'n gysylltiedig â'r cerbydau hynny hefyd. Mae'n rhaid rhoi system drafnidiaeth gyhoeddus ar yr agenda yn yr hirdymor er mwyn i ni geisio bod yn llai dibynnol ar geir, sy'n hollbwysig yn fy marn i.

**Cwestiwn:** *Mike ar ran Rhyn Ap Iorweth* – Rwy'n edrych ymlaen at weld Plaid Cymru yn sefydlu pencadlys cwmni ynni cenedlaethol i Gymru ar Ynys Môn yn y dyfodol – a oes mwy o fanylion ar gael am natur y cwmni hwnnw ar hyn o bryd?

**Ymateb (LG):** Os nad yw Wylfa yn digwydd, bydd yn rhaid i ni gynyddu'r arbenigedd o ran ynni gwyrdd a gwireddu'r potensial sydd gennym, a chredaf mai Môn yw'r lle gorau i ganolbwyntio elfennau o'r gwaith hwnnw. Nid wyf am droi'r cyfraniad hwn yn ddarllediad pleidiol, ond mae fy maniffesto i yn trafod creu corff a fydd yn dwyn yr agenda honno yn ei blaen.

**Ymateb (RM):** Mae'n rhaid sicrhau bod y broses honno'n cael ei chydlynu. Mae'n bosibl ein bod wedi tynnu'r llinell honno rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus ychydig yn rhy bell mewn un cyfeiriad. Wrth i ni fynd drwy'r broses hon ac wrth i ni wynebu dirwasgiad, mae'n rhaid i ni symud yn agosach at y math hwn o gwmni ynni cenedlaethol wrth i ni bontio tuag at ynni gwyrdd. Mae'n bosibl y byddwn am edrych ar ddatrysiadau eraill eto, ond mae'n rhaid i ni fynd trwy broses sydd heb ei harwain gan y farchnad. Os y farchnad oedd yn arwain ar y broses, ni fyddai'n rhaid i ni gynllunio ar ei chyfer, oherwydd byddai'r farchnad yn gwneud y gwaith hwn yn barod. Nid yw'r farchnad yn gwybod sut i wneud hyn oherwydd nid oes modd cynnwys y systemau prisio sydd eu hangen arnom yn ein systemau prisio a threthu presennol, felly mae'n rhaid cael elfen o gynllunio. Ni ellir rhoi pris ar yr allanoldeb sydd ei angen arnom, felly mae'n rhaid i ni feddwl am y datrysiadau cenedlaethol hyn. Mae cwmni ynni cenedlaethol yn gwneud synnwyr fel *rhan* o'r cynllun hwnnw, ond nid cwmni o'r fath yw'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

**Ymateb (PA):** Y prif agweddau sy'n rhaid i ni ymchwilio iddynt fel rhan o'r cynllun i Gymru yw camau i fanteisio ar arbenigedd o'r byd academaidd. Drwy wneud hynny, gallwn ateb rhai cwestiynau mawr. Mae'n rhaid i ni edrych ar ddetholiad ehangach o fodelau economaidd yn ein hysgolion – os nad yw pobl ifanc yn cael y cyfle i feddwl am y materion hyn, a'u deall, rydym yn cyfyngu'n hunain, ac mae hynny'n gamgymeriad.

**Ymateb (LG):** Mae'r fframwaith datblygu cenedlaethol bellach wedi'i gyhoeddi, ac mae'n nodi'r paramedrau ar gyfer rhai o'r pethau rydym wedi bod yn eu trafod o ran dyheadau ar gyfer yr agenda ynni. Mae'r fframwaith wedi bod yn yr arfaeth ers nifer o flynyddoedd, felly mae yna gwestiwn o ran i ba raddau y mae'n trafod y byd newydd rydym yn byw ynddo. Un o fy mhryderon i yw bod pobl wedi colli hyder mewn trafnidiaeth gyhoeddus oherwydd diogelwch, yn ogystal â'r ymdrech y bydd yn ei gymryd i gael pobl yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mewn rhai ffyrdd, mae yna bethau na fyddem am iddynt fynd yn ôl i fel yr oedden nhw, ond mae'r gwrthwyneb yn wir am bethau eraill lle roddem ar y trywydd cywir. Mae'r byd yn newid, a'r ffordd rydym am lunio'r dyfodol hwnnw sy'n pennu'r paramedrau. Weithiau, mae'n rhaid i'r pwysau gwleidyddol o gwblhau prosiectau cyn yr etholiad ym mis Mai ddod yn ail.

**Ymateb (RM):** Rwy'n teimlo'n obeithiol y bydd y sefyllfa'n newid ac y bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn gweld adferiad, ond mi fydd yn cymryd amser.

**Ymateb (PA):** Hefyd, mae'n gyfle i ailadeiladu'r seilwaith ar adeg pan fo llai o bwysau ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**Ymateb (LG):** Rwy'n cytuno: mae'n gyfle i gymryd cam yn ôl ac edrych ar yr hyn rydym yn ei gymryd yn ganiataol, yn y gobaith y gallwn ddilyn trywydd arall ac ymdrin â rhai o'r problemau sy'n wynebu ein cymdeithas.

**Cau'r cyfarfod**

Diolchodd y Cadeirydd y cyflwynwyr a'r gwesteion, gan ofyn am awgrymiadau gan aelodau'r grŵp ar gyfer pynciau trafod yn y dyfodol.